***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 971 (Cy. 240)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Medi 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *7 Hydref 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *7 Tachwedd 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) mewn perthynas â'r gofyniad am asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd a gaiff prosiectau sy'n debyg o effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd, i'r graddau y mae'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref(**2**) a thrwy arfer y pwerau a roddir gan yr adran honno ac adran 71A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**3**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 7 Tachwedd 2016.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016

**2.** Yn lle rheoliad 57(2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016(**4**) rhodder—

(**1**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**2**) O.S. 2007/1679. Gweler erthygl 4.

(**3**) 1990 p. 8. Mewnosodwyd adran 71A gan adran 15 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf honno, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, ac yr oedd y swyddogaethau hynny yn swyddogaethau perthnasol y Cynulliad fel y diffinnir "the relevant Assembly functions" ym mharagraff 30(2).

(**4**) O.S. 2016/58 (Cy. 28).

"(2) Pan fo awdurdod yn gyfrifol am benderfynu ar gais AEA, mae erthyglau 22 (cyfnodau amser ar gyfer penderfyniadau) a 23 (ceisiadau a wneir o dan amod cynllunio) o Orchymyn 2012(**5**) yn cael effaith fel pe bai—

(a) pob un o'r cyfeiriadau yn erthygl 22(2)(a) a 23 at gyfnod o 8 wythnos yn gyfeiriad at gyfnod o 16 wythnos; a

(b) y cyfeiriad yn erthygl 22(2)(aa)(**6**) at y cyfnod o 12 wythnos yn gyfeiriad at y cyfnod o 20 wythnos."

**Darpariaeth drosiannol**

**3.** Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r ceisiadau y ceir diwygiadau yn eu cylch gan yr awdurdod ar neu cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

29 Medi 2016

(**5**) Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/801 (Cy. 110))

(**6**) Mewnosodwyd is-baragraff (aa) o erthygl 22(2) gan erthygl 11(b) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/59 (Cy. 29)).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990"), caiff person sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio, neu am unrhyw gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol gan amod neu gyfyngiad a atodir i ganiatâd cynllunio, apelio i Weinidogion Cymru os nad yw'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol yn penderfynu ar y cais o fewn y cyfnod rhagnodedig.

Mae'r cyfnod wedi ei ragnodi yn erthygl 22(2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Wyth wythnos yw'r cyfnod oni bai y caiff cais ei ddiwygio cyn i'r awdurdod wneud penderfyniad. Os caiff cais ei ddiwygio cyn i'r awdurdod wneud penderfyniad, y cyfnod fydd un ai pedair wythnos o'r dyddiad y daw y diwygiad i law'r awdurdod neu ddeuddeng wythnos o'r dyddiad y cafwyd y cais gwreiddiol, pa un bynnag yw'r hiraf.

Mae rheoliad 57(2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016 ("Rheoliadau 2016") yn cynyddu'r cyfnod o wyth wythnos yn erthygl 22(2)(a) i un wythnos ar bymtheg pan fo'r cais yn ymwneud â datblygiad lle mae asesu effeithiau amgylcheddol ("AEA") yn ofynnol.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi rheoliad 57(2) newydd yn lle'r un presennol yn Rheoliadau 2016. Gall ceisydd apelio ar ôl y cyfnod a ragnodir yn erthygl 22(2) os caiff cais lle mae AEA yn ofynnol ei ddiwygio ond os na chaiff penderfyniad ei wneud yn ei gylch, a daw'r cyfnod hwnnw yn bedair wythnos o'r dyddiad y caiff yr awdurdod y diwygiad neu'n ugain wythnos o'r dyddiad y cafwyd y cais gwreiddiol lle mae AEA yn ofynnol, pa un bynnag yw'r hiraf.

Mae rheoliad 3 yn cynnwys darpariaeth drosiannol.

Ni ragwelir unrhyw effaith ar y sectorau cyhoeddus, preifat na gwirfoddol, neu y rhagwelir ychydig iawn o effaith ar y sectorau hynny. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol.